Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Croes Atti
Chester Road
Y Fflint
CH6 5DU

26/05/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Croes Atti yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Miniogi'r addysgu a'r cynllunio er mwyn adeiladu ar yr arferion gorau o ran datblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion

- Ar draws y ddarpariaeth, mae lleihad amlwg yn y defnydd o daflenni gwaith a thasgau caeedig. Mae hyn, yn ei dro, yn arfogi disgyblion i wneud dewisiadau ystyrlon yn gynyddol annibynnol ynglŷn â sut i fynd ati i gyflawni eu gwaith a sut i'w gyflwyno.
- Mae arweinwyr a staff wedi datblygu ystod briodol o drefniadau, gan gynnwys yr 'Hafan Heriau', ardaloedd dysgu a chwestiynau mawr, sy'n cefnogi disgyblion i weithio'n fwy annibynnol ac i gymryd mwy o berchnogaeth dros eu dysgu.
- Yn yr arferion cryfaf, mae staff yn modelu'n bwrpasol, yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yna'n camu'n ôl ar adegau priodol i'w galluogi i feddwl drostynt eu hunain a myfyrio ar eu dysgu.
- Mae'r ddarpariaeth yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn gadarn. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn defnyddio'r ardaloedd yn bwrpasol, yn dewis adnoddau'n hyderus ac yn dyfalbarhau'n briodol wrth chwarae a dysgu.

- Mae llawer o’r disgyblion hynaf yn deall pwrpas eu gweithgareddau dysgu yn glir. Maent yn dewis lefel her briodol yn gynyddol annibynnol ac yn egluro’n synhwyrol sut a pham y maent yn ymgymryd â’u dysgu.
- Mae cyd-gynllunio staff, trafodaethau adrannol a chraffu ar waith ar draws y ddarpariaeth yn dechrau cryfhau cysondeb yn yr addysgu yn raddol, gan gefnogi staff i fireinio’r ddarpariaeth er mwyn meithrin annibyniaeth disgyblion dros amser.

### Cynyddu’r cyfleoedd i ddisgyblion feistroli eu medrau ysgrifennu estynedig

- Mae arweinwyr a staff yn cyd-gynllunio gweithgareddau dysgu creadigol a pherthnasol i gefnogi medrau ysgrifennu disgyblion. Mae profiadau ysgrifennu cyson, sydd wedi’u plethu’n grefftus ar draws y meysydd dysgu, yn cynnig lefel her briodol ac yn cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau yn y ddwy iaith dros amser.
- Ar draws y ddarpariaeth, mae staff yn darparu adnoddau defnyddiol, fel matiau iaith pwrpasol, sy’n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ac yn cyfrannu’n fuddiol at gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig.
- Mae’r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu, y tu fewn a thu allan, yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin eu medrau ysgrifennu’n gynyddol annibynnol o oedran cynnar.
- Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn adeiladu ar eu medrau gan ddefnyddio brawddegau byr ac atalnodi syml yn gynyddol gywir i gyfleu ystyr. Wrth iddynt aeddfedu, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n fwy estynedig gyda hyder cynyddol yn y ddwy iaith, gan ddangos gafael sicr ar ystod briodol o ffurfiau. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o nodweddion iaith, fel personoli a chymariaethau, ac yn eu defnyddio’n fedrus i gyfoethogi eu gwaith.
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ysgrifennu. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn ystyriol. Maent yn dangos parch amlwg at eu gwaith wrth ei gyflwyno’n daclus.
- Mae dysgu proffesiynol diweddar ar gryfhau medrau ysgrifennu disgyblion wedi dechrau arfogi staff â dealltwriaeth gliriach o sut i gynllunio’n fwy systematig i gefnogi dysgu disgyblion. Maent yn defnyddio tasgau ‘oer’ pwrpasol i asesu medrau cychwynnol disgyblion, ac yn cynllunio gweithgareddau dysgu ystyrlon sy’n adeiladu’n drefnus ar y rhain. Mae hyn, ynghyd â chyfleoedd amserol i ymateb i adborth cyson gan staff, yn cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i fireinio eu gwaith ysgrifenedig yn fwriadus a symud eu dysgu ymlaen.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6642257

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol